

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 11, 2016 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes a Gethin Williams. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 13, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 13, 2016

Eitem 7.c. Trafod:

Llythyr (20/7/2016) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn âg Cynllun Datblygu Lleol Eryri - cynllunio a datblygu yn y dyfodol. Mae angen llenwi ffurflen i roi ein barn.

Llythyr (10/8/2016) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â asesiad o fannau agored. Maent angen gwybodaeth am dir addas ar gyfer dibenion hamdden a mwynderau cyhoeddus. Mae angen llenwi holiadur i nodi mannau agored sydd ddim yn adnabyddus.

Derbyniwyd sylw ar Taicynhaeaf yn unig ar y mater.

Eitem 5.d. Llythyr (16/8/2016) oddi wrth AON yn rhoi gwybod nid ydy'n bosib parhau rhestri ein hasedau. Mae'n ddigonol i ein heitemau rhestredig, a'u gwerth, fod tu fewn cyfyngiad safonol.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda chwmnïau yswiriant eraill at flwyddyn nesaf.

Eitem 8.ch. Llythyr (21/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd y cwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith yn Gymraeg.

Mae Elfed ap Gomer am fod yn bresennol yn y cwrs.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 11, 2016

Eitem 10. Llythyr ateb (5/10/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. nid ydynt yn gwybod lle mae'r diffyg ar ffordd rhwng Murmur-y-Nant a Pant Llwyfog, Llanelltyd gyda'r dŵr rhedeg lawr y ffordd. Maent angen lleoliad pendant.

Penderfynwyd rhoi gwybod mae'r diffyg wrth ymyl cylfat sy'n mynd dan y ffordd..

ii. bydd gwaith o dorri gordyfiant ar y ffordd rhwng y fynwent ar hen bont Llanelltyd yn cael ei wneud yn ystod yr Hydref.

Penderfynwyd diolch y Gwasanaeth am wneud gwaith rhagorol cafodd ei wneud. A hefyd diolch am y gwaith da gwnethpwyd o dorri tyfiant ar ochrau llwybr o'r Pill i'r Turnpike.

iii. bydd swyddog Strwythurol o Ymgynghoriaeth yn asesu'r hen bont Llanelltyd ond does dim sicrwydd pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (26/9/2016) oddi wrth BDO, archwiliwr allanol. Amgau mae'r Ffurflen Flynyddol sydd wedi cael ei derbyn a chymeradwyo. Ond hefyd amgau mae argymhellion dylid eu dilyn at flwyddyn 2016/2017.

Mae angen:

i. cyflwyno'r Ffurflen Flynyddol i'r cyngor a'i fod yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn gan y cyngor.

Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei gymeradwyo a'i dderbyn.

ii. rhoi gwybod i'r cyngor materion sy'n codi, a dylid cynyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y bydd y materion yn cael eu trin, sef materion arianol.

Rhodddwyd gwybod i'r cyngor y materion oedd yn codi, a chytunwyd cynllunio sut bydd materion arianol yn cael eu trin.

iii. arddangos y ffurflen flynyddol a'r hysbysiad diwedd yr archwiliad cael eu harddangos mewn lle amlwg cyn Medi 30, 2016 ac am 14 diwrnod.

Arddangoswyd y ffurflen flynyddol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 11, 2016

iiii. rhoi gwybod i'r archwilydd mewnol am lythyr ganddo ini ei benodi. Pwrpas y llythyr ydy sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

Penderfynwyd cael arweiniad gan Un Llais Cymru.

b. Bil (1/9/2016) am £218.12 oddi wrth W.R. Evans & Son am drwsio'r fainc yn Lloches Bysus Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2016: £8,782.22.

ch. Bil (5/10/2016) am £58 oddi wrth Elfed ap Gomer at gost trafaelu i gynrychioli'r Cyngor yng nghynhadledd flynyddol Un Llais Cymru 2016.

Cafwyd adroddiad gan Elfed ap Gomer am y gynhadledd.

Penderfynwyd talu'r bil.

Mae angen talu Un Llais Cymru £90 tuag at y gost i Elfed ap Gomer cynrychioli'r Cyngor

Penderfynwyd talu'r gost.

d. Bil (8/10/2016) am £480 oddi wrth E.W. Davies am dorri gwair y fynwent at ddiwedd Medi. Yn ei lythyr mae'n rhoi gwybod mi fydd yn gorffen torri'r gwair y fynwent eleni.

Penderfynwyd talu'r bil, a diolch Mr Davies am y gwaith gwnaeth dros lawer o flynyddoedd.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Gydag ymddeoliad Mr Davies benderfynwyd rhoi cynnig i Mr Meurig Ashton, Llur Williams a Mr. I Thompson i roi pris am gynnal a chadw'r fynwent. Hefyd rhoi hysbyseb yn Y Dydd am contractwr profiadol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd materion ganddynt.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (Medi 2016) oddi wrth Comisiwn Ffiniau Cymru yn rhoi gwybod eu bod wedi cyhoeddi Cynigion Cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholiadau Seneddol yng Nghymru. Os mae sylwadau maent eu hangen cyn Rhagfyr 5, 2016. Mae'r wybodaeth ar gael ar www.bcomm-wales.hov.uk

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer a Gethin Williams dod a sylwadau ar y mater.

b. Llythyr (12/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 21, 2016 am 7.00yh. Amgau mae'r Agenda. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o'r Parc Cenedlaethol ar amodau 106, ac adolygiad Cynllun Datblygiad Lleol. Amgau hefyd mae cofnodion y Pwyllgor cynhaliwyd yn Tywyn ar Mai 25, 2016 a chofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ym Llanfair y Mauallt ar Mehefin 10, 2016.

Cafwyd adroddiad gan Elfed ap Gomer am y cyfarfod oedd yn orlawn. Mae Elfed am roi gwybodaeth i'r aelodau ar amodau 106.

c. Llythyr (15/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent eisiau ni gwblhau holiadur ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol / Asedau o Werth Cymunedol.

ch. Llythyr (Medi 2016) oddi wrth Eluned Morgan, AC, Aelod Ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. Amgau mae holiadur i ni ei gwblhau iddi gael gwybod am ein hardal ac am ein barn ar y gwasanaethau rydym yn derbyn.

d. Llythyr (19/9/2016) oddi wrth Un Llais yn rhoi gwybod bydd Ardaloedd Cyflawnder Lleol yng Nghymru yn uno Gwynedd a Môn i greu ACLI Gogledd Orllewin Cymru.

dd. Llythyr (3/10/2016) (trwy law Peredur Jenkins) oddi wrth Trafnidiaeth – Yr Isadran Rheoli'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru. Maent yn rhoi gwybod bydd llwybr yn cael ei roi ar ochr ffordd A470 at y gylchfan newydd a bydd lle croesi yn cael ei roi. Bydd cyfyngiad cyflymder o 30mya o amgylch y gylchfan.

e. Llythyr (3/10/2016) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bydd Ap Trefor Iwan, Swyddog gyda Cyngor Gwynedd, yn bresennol yn y cyfarfod i drafod peryglon ffordd A496.

Cafwyd gwybod gan y Swyddog bod Priffyrdd yn adolygu ffyrdd y sir gan gynnwys y ffordd rhwng Llanelltyd a Taicynhaeaf. Does dim sicrwydd pryd bydd gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 11, 2016

Rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Priffyrdd bod pobol yn parcio ceir rhwng y gyffordd o'r ffordd A496 a mynedfa i Neuadd Bentref Llanelltyd gan achosi anhawster i'r bobol sy'n defnyddio'r ffordd. Oherwydd hyn penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd iddynt ystyried rhoi llinellau melyn dwbl i wahardd ceir parcio rhwng y gyffordd o'r ffordd A496 a mynedfa i Neuadd Bentref Llanelltyd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

- a. Cafwyd adroddiad diweddaraf ar ddatblygiad Ysgol Llanelltyd ac ar ysgolion yr ardal.

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
